



# Cofrestru gweithwyr gofal cartref – llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau

## 1. Beth yw cymhwysedd wedi'i gadarnhau?

Rydym wedi sefydlu llwybr arall ar gyfer cofrestru a fydd yn caniatáu i weithwyr gofal cartref profiadol gael eu cofrestru heb yr angen i gwblhau cymhwyster ffurfiol. Dyma'r llwybr cymhwysedd a gadarnhawyd.

## 2. Pwy sy'n gymwys i gofrestru drwy'r llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau?

I fod yn gymwys ar gyfer y llwybr hwn i gofrestru, rhaid i weithiwr feddu ar o leiaf dair blynedd o brofiad o weithio yn y rôl yn y pum mlynedd diwethaf. Nid oes rhaid iddo fod yn brofiad olynol.

Gall hyn gynnwys gweithio ar sail amser llawn neu ran-amser.

Gall y tair blynedd o brofiad fod ar draws cyflogwyr gwahanol. Rhaid i chi, fel y cyflogwr presennol, fod yn fodlon fod ganddo brofiad digonol yn seiliedig ar ei hanes cyflogaeth a geiradon boddhaol y gallech fod wedi'u derbyn gan y cyflogwr blaenorol. Rhaid i chi fod yn hyderus bod y gweithiwr yn gallu arddangos y **cymwyseddau angenrheidiol** yn gyson.

Rhaid i reolwr cofrestredig y sefydliad gadarnhau bod y gweithiwr wedi bodloni'r cymwyseddau gofynnol, trwy broses ymgeisio ar-lein.

## 3. Os ydych chi'n cofrestru trwy'r llwybr cymhwysedd a gadarnhawyd, a fydd angen i'r gweithiwr gwblhau cymhwyster cyn gorfod adnewyddu cofrestru ar ôl tair blynedd?

Pwrpas y llwybr cymhwysedd cadarnhau yw cadw gweithwyr profiadol da yn y sector.

Ni fydd angen i weithwyr sy'n cofrestru drwy'r llwybr cymhwysedd cadarnhau cyn Ebrill 2020 gael cymhwyster i ailgofrestru ond ond bydd angen iddynt gwblhau 90 awr o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru.

## 4. Os yw rhywun yn cofrestru drwy'r llwybr hwn ac yn newid cyflogwr, a yw eu cofrestriad yn dal yn ddilys?

Ydy. Mae cymhwysedd wei'i gadarnhau yn ffordd i weithiwr ddod yn gofrestredig, ac mae'r cofrestriad hwn yn parhau'n ddilys trwy gydol ei gyfnod cofrestru. Nid yw cofrestru'n gysylltiedig â sefydliad oherwydd ei fod yn gofrestriad personol.

## 5. Sut mae rheolwr yn asesu cymhwysedd at y diben hwn, a pha dystiolaeth sydd ei hangen??

Rydym wedi creu **rhestr o'r cymwyseddau gofynnol** y mae angen i chi eu hasesu ac y mae'n rhaid i'r gweithiwr eu cyflawni.

Mae gan y rhestr o gymwyseddau le i logio unrhyw dystiolaeth a ddefnyddir i gadarnhau bod ymarfer y gweithiwr yn gymwys. Mae gwybodaeth gydag enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gynnwys fel dystiolaeth ar gael yn y canllawiau.

Efallai y byddwn yn cynnal gwiriadau sampl a gofyn am gopiâu o'r dystiolaeth a ddefnyddir i wneud eich penderfyniad. Mae hyn i fodloni ein hunain bod gweithwyr yn addas i'w cofrestru.

Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyfrifol am wirio cymhwysedd a gadarnhawyd ac ni fydd yn cynnal unrhyw wiriadau ychwanegol. Mae'r rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am gywirdeb y cymwyseddau gofynnol. Gallai unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol arwain at achosion addasrwydd i ymarfer a allai arwain at gael gwared ar y rheolwr o'r Gofrestr. Os oes gan AGC bryderon ynghylch cymhwysedd unrhyw berson cofrestredig, bydd yn cyfeirio hyn atom.

## 6. Sut mae rheolwr cofrestredig yn cadarnhau cymhwysedd gweithiwr?

Unwaith y bydd y rheolwr a'r gweithiwr yn fodlon bod yr holl **gymwyseddau gofynnol** wedi'u bodloni, a bod y dystiolaeth wedi'i nodi yn y ddogfen gyfarwyddyd, gall y gweithiwr wneud cais i gofrestru.

O fewn y cais maent yn dewis y llwybr cymhwysedd a gadarnhawyd, a bydd hyn yn cynnwys dewis eu rheolwr cofrestredig (bydd rheolwyr cofrestredig yn cael eu hychwanegu at y sefydliad ac ar gael i'w dewis ar y ffurflen gais).

Anfonir e-bost at y rheolwr yn gofyn iddynt logio i mewn i'w cyfrif **GCCarlein** a chwblhau'r datganiad cymhwysedd yn electronig.

## 7. Beth os nad oes Rheolwr Cofrestredig, neu os ydynt yn absennol o'r sefydliad?

Yn absenoldeb rheolwr cofrestredig, rhaid i'r unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad nodi

person perthnasol i gadarnhau'r cymhwysedd. Gallai hyn fod yn reolwr AD neu reolwr hyfforddiant, gyda mynediad i gofnodion gweithiwr. Ni fydd angen i'r person perthnasol fod wedi'i gofrestru, ond bydd yn rhaid iddo fod yn llofnodwr ar gyfer y sefydliad. Bydd y tîm ymholiadau Cofrestru yn gallu eich cefnogi gyda'r broses hon.

## 8. A oes terfyn ar nifer y gweithwyr a all ddefnyddio'r llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau o unrhyw un sefydliad?

Nac oes, ond byddwn yn monitro'r niferoedd ac yn anelu i sicrhau bod mwyafrif y gweithwyr gofal cartref yn meddu ar gymhwyster neu'n gweithio tuag at eu cymhwyster. Dim ond ar gyfer aelodau staff profiadol y gellir defnyddio cymhwysedd cadarnhaol.

## 9. A yw hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru yn berthnasol?

Ydy. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr cofrestredig gwblhau 90 awr/15 diwrnod o hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd.

Gall eich gweithwyr gadw cofnod o'u hyfforddiant a'u dysgu yn eu cyfrifon personol **GCCarlein**. Byddem yn eu hannog i gynnal hyn pan fyddant yn cwblhau'r hyfforddiant. Bydd hyn yn gwneud y broses adnewyddu yn llawer cyflymach ac yn haws iddynt.

